



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Hydref 2013
Rhifyn 200

Oedfaon y Sul

- 6 Hyd - Bore: **Gweinidog**
Gweinyddir y Cymun a bydd bwrdd Masnach Deg yn y cyntedd
Hwyr (5pm): **Uno yn Salem** -
- 13 Hyd - Bore: **Dr Eryl Wyn Davies, Llanfairpwll**
Bydd bocs Bancbwyd yn y cyntedd
Hwyr (5pm): **Uno yn Salem**
- 20 Hyd - **Sul Diolchgarwch**
Bore: **Oedfa'r Plant** (10am)
Hwyr: **Gweinidog**. Oedfa gan aelodau Seilo a Salem
*Apelir am roddion gan y plant a'r oedolion at y Bwrdd
Diolchgarwch. Rhennir y rhoddion ymhlith aelodau bregus yr
eglwys.*
- 27 Hyd - Bore a Hwyr: **Y Parchg Gerallt Lloyd Evans**

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen
Eglwys Seilo ar

www.henaduriaetharfon.org



Digwyddiadau Mis Hydref

Nos Lun 7 Hyd (7.00pm) - **Swper Cynhaeaf Y Gymdeithas Lenyddol a
Chymdeithas Chwiorydd Seilo**

Sgwrs gan Mr Gwyn Pierce (Hogia'r Garreg):
'Dylanwadau ar ein canu ysgafn cynnar'

Dydd Mercher 9 Hyd - **Y Gymdeithasfa yn y Gogledd yng Ngharno**

Nos Lun 14 Hyd (7pm) - **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**
Sgwrs ar 'Ysbrydion' gan Mr Donald Glyn Pritchard

Bore Llun 21 Hydref (10am) - Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch

Dydd Mawrth 22 Hydref (3 a 7pm) - **Henaduriaeth Arfon** yn Nghapel y Rhos,
Llanrug. Bydd oedfa'r hwyr yn oedfa gyhoeddus yng nghwmni Llywydd y
Gymdeithasfa yn y Gogledd, Mr Huw Tudor, Pwllheli

Seiat bob dydd Mercher am 10am
Y Gell Weddi bob dydd Iau am 10.30am
Taro Mewn yn Salem bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11 am

Am Eiliad

Deuddeg oed oeddwn i pan ddaeth y Parchedig Trefor Jones yn weinidog ar gapel Engedi yma yng Nghaernarfon. Rhwng hynny a heddiw fe ddiflanodd bron i hanner can mlynedd ac ymhlyg yn y blynyddoedd hynny mae cyfoeth o atgofion. Mae'n rhaid fy mod i'n parhau i fynychu'r 'Band of Hope' pan oeddwn yn fy ardegau cynnar oherwydd mae gen i gof o Trefor Jones mewn dipyn o strach yn methu gweithio'r taflunydd ac o'r herwydd yn gorfod pendroni be a wnai hefo dwsin neu fwy o blant oedd wedi dod i'r festri i gael eu diddanu gan y gweinidog! Gair am Air fu hi'r noson honno, ac fe blesiodd hynny'n iawn. Dyma gyfnod ymhell cyn y cyfrifiadur a'r ffôn symudol pan oedd gweithgareddau digon syml yn bodloni plant y capel.

Y Parchedig W.M.Jones a'm bedyddiodd a Trefor Jones a'm derbyniodd yn gyflawn aelod. Mae'r Llyfr Emynuau a dderbyniais ar yr achlysur hwnnw yn dal yn fy meddiant. Bu'r ugain mlynedd wedi hynny yn ysgol brofiad gyfoethog a'm paratôdd, er yn ddjarwybod i mi fy hun, ar gyfer y digwyddiad annisgwyl yn 1984 pan gefnais ar fy ngyrfa ym myd addysg gan roi fy mryd ar y weinidogaeth. Roedd Duw wedi defnyddio pobol y capel ac yn arbennig y Gweinidog i'm harwain i lwybr na freuddwydais y byddwn byth yn ei gerdded. Yn 1983 fe'm codwyd yn flaenor yn yr eglwys y cefais fy magu ynddi, a dyna'r fraint fwyaf oll. Erbyn hynny roeddwn wedi cychwyn ar fy astudiaethau yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth ac wrth fy modd. Trefor Jones aeth â mi yno i gyfarfod â Phrifathro'r coleg am y tro cyntaf; a wyddoch chi, pan gyrhaeddais y coleg ar fy niwrnod cyntaf yno, roedd nodyn a bocs o fwyd yn fy nisgwyl ar y

bwrdd yn fy 'stafell. Roedd y Parchedig a Mrs Trefor Jones wedi galw yn y coleg ar eu ffordd adref o'r de, ac roedd hynny'n werth y byd i mi. Mae'r nodyn hwnnw hefyd gen i o hyd.

Wel, meddech chi, pam mae'r Gweinidog, yn hel atgofion fel hyn heddiw? Eleni mae'r Parchedig Trefor Jones yn dathlu trigain mlynedd yn y weinidogaeth. Eisoes fe'i llongyfarchwyd yn y Gymdeithasfa a gyfarfu ym Mlaenau Ffestiniog fis Mai eleni, ac yn oedfa'r hwyr yn yr Henaduriaeth a gynhelir yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ar 22ain o Hydref, caiff ei longyfarch gan yr Henaduriaeth y bu'n aelod ohoni am bron i hanner can mlynedd. Mae'r oedfa yn agored i bawb a byddai'n braf gweld cynrychiolaeth deilwng o Seilo yno.

Mae'n dymor y Diolchgarwch, pryd byddwn yn cyfri'n bendithion ac yn sylweddoli cymaint sydd ganddom i ddiolch amdano. Ymhlith y bendithion y mae'r caredigrwydd a'r gefnogaeth a gawsom.

Gwenda Richards

Coffâd

Mrs Laura Ann Pritchard, Bryn

Hyfryd, 67 Cae Gwyn

Gwraig yn hannu o Lanrug oedd Laura Pritchard, wedi byw yn Llanberis, Ghana, Llangefni a Thywyn, cyn ymddeol i Gaernarfon. Bu'n weithiwr sifil yn Llangefni a Machynlleth ble roedd yn uchel ei pharch ymhlith ei chydweithwyr. Teithiodd hi a'i phriod yn eang, yn arbennig wedi iddynt ymddeol. Gwraig dawel a swil oedd hi o ran natur, yn byw i'w theulu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mrs Eifiona Thomas, Bryn Derw,

Llanfaglan, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â **Mr a Mrs Richard Morris**, 24 Tyddyn Llwydyn, Parc yr Hendre a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu mab yng nghyfraith Bryan (Yogi) Owen, y Bala. Gwyddom oll am ei ymdrech fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn ei ddamwain ar y cae rygbi ac am gefnogaeth gyson ei deulu a'i ffrindiau, ynghyd â'r gymuned ehangach.

Dymuna Dick a Morfudd a'r teulu ddiolch am gefnogaeth eglwys Seilo i Yogi, ac am bob cydymdeimlad y maent wedi ei dderbyn yn y brofedigaeth o'i golli.

Gwaeledd

Bu sawl aelod o'r eglwys yn wael yn ddiweddar ac anfonwn ein dymuniadau da atynt oll. Cafodd **Mr Ellis R Jones**, 28 Maes Gwynedd, driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gobowen, a da yw deall ei fod gartref ac yn gwella'n dda. Treuliodd **Mr Ken Williams**, Cae'r Efail, Llanfaglan, gyfnod yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl, ond mae yntau adref erbyn hyn ac yn gwella. Bu **Mrs Pamela Roberts**, Carreg Las, Cae Gwyn, yn bur wael yn Ysbyty Gwynedd dros yr haf, ond mae hi'n llawer gwell erbyn hyn ac yn cryfhau'n feunyddiol. Da yw deall bod **Mr Emyr Wyn Jones** wedi dychwelyd o Ysbyty Gwynedd a'i fod ar hyn o bryd yng nghartref Gwynfa. Mae **Mrs Awen Humphreys**, 24 Heol Elinor, ar hyn o bryd yng Nghartref Cerrig yr Afon wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Eryri. Bu **Mrs Llinos Lloyd Jones**, Cynefin, 15 Llys Gwyn, yn Ysbyty Gwynedd, fel y bu **Mrs Catherine Jones**, Gwendraeth, Llys yr Orsedd a **Mrs Menai Owen**, 33 Heol Elinor. Mae **Mr Iorwerth**

Williams, Rhoslan, Uxbridge Square, yn parhau yn Ysbyty Eryri yn dilyn cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n edrych ymlaen at gael mynd adra'n fuan. Bu **Mrs Mair Evans**, Gwynle, Ffordd Bethel, i mewn ac allan o Ysbyty Gwynedd dros fisoedd yr haf, ac yno y mae hi ar hyn o bryd. Cafodd **Mr Arthur Miles**, Llais Afon, 29 Llys Gwyn, driniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar ac mae ar hyn o bryd yn treulio cyfnod yng nghartref ei fab. Mae **Mrs Kitty Roberts**, Arfryn, Ffordd Eryri yng nghartref Willow Hall ar hyn i bryd ac anfonwn ein cofion cynhesaf ati.

Allweddi'r Capel. Neges bwysig

Gofynnir i bawb sy'n berchen ar allwedd i gapel Seilo gysylltu â Dr Gwyn Lewis (676651). Yn unol â gofynion y cwmni yswiriant, mae'n ofynnol cadw rhestr fanwl o'r allweddi a'u perchnogion. Apelir arnoch i gydymffurfio â'r cais hwn. **Ni ddylai neb wneud copi o'r allwedd.**

Y Seiat

Maes trafod y seiat eleni fydd 'Byw'r Cwestiynau', addasiad o'r gyfrol 'Living the Questions' gan Cristnogaeth 21. Ffurfiwyd Cristnogaeth 21 yn 2008 'er mwyn ei gwneud yn haws i unrhyw un drafod y ffydd Gristnogol yn y Gymraeg yn gwbl agored'. Bydd y Seiat yn ailgychwyn am 10 yb dydd Mercher, 2 Hydref.

Oedfa'r Hwyr

Bydd oedfa'r hwyr yn Seilo am 5 o'r gloch dros fisoedd y gaeaf ac nid am 4 o'r gloch fel roedd y llynedd. Deil yr oedfa i fod am 4 o'r gloch yn Salem.

Dydd Sul Diolchgarwch, 20 Hydref

Ni fydd y 'Bocs Bancbwyd' yng nghyntedd Seilo y bore hwnnw, ond yn hytrach gwahoddir plant ac oedolion i gyflwyno rhodd at y Bwrdd Rhoddion yn y capel, ac yna fe'u dosberthir ymhlith aelodau bregus y capel.

Bwrdd Gwerthu ar y Maes

Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y Bwrdd Gwerthu ar y Maes fore Gwener 14 Medi. Diolch arbennig i swyddogion Pwyllgor Chwiorydd yr eglwys am eu gwaith yn trefnu. Gwnaethpwyd elw o £275.60 tuag at eglwys Seilo.

Ffrindiau o Shillong yn ymweld â

Chymru

Bu'n fraint croesawu deunaw aelod o Henaduriaeth Laitumkrah yn Shillong i ardal Caernarfon dydd Llun 16 Medi, 2013. Yn dilyn oedfa fer yn Eglwys y Waun, ymwelwyd â mynwent Betws Garmon ac offrymwyd gweddi o ddiolchgarwch uwchben bedd y Parchedig Ednyfed Watcyn Thomas a'i briod a fu'n genhadon am flynyddoedd yn Cherrapunji. Daeth eu nai, Iolo Thomas, i gyfarfod yr ymwelwyr a chymerodd ran yn yr oedfa yn Waunfawr. Cyrraedd Seilo wedyn a derbyn o letygarwch chwiorydd yr eglwys. Roedd Mr Huw Tudor, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd yno i'w croesawu a chyflwynwyd rhodd iddo gan y cyfeillion o Fryniau Casia. Profiad hyfryd fu gwranddo arnynt yn canu emyn yn yr iaith Casi i'r dôn 'Hen Wlad fy Nhadau'. Diolchodd y gweinidog i'r chwiorydd am ginio blasus a threuliwyd y gweddill o'r pnawn ar ynys Môn yn siopa yn Pringle!

Cymdeithas y Chwiorydd

Roedd nifer o aelodau'n bresennol yng nghyfarfod cynta'r tymor ac estynnwyd croeso i'n siaradwraig wadd Mrs Brenda Wyn Jones o Dregarth, sy'n adnabyddus fel awdures, gan y llywydd, Lis Lloyd Davies. Testun ei sgwrs oedd hynt a helynt yr Ifaciwis yn ardal Bethesa. Aeth â ni'n ôl i gyfnod y rhyfel a sut y cyrhaeddodd dros chwe chant ohonynt o ddinasodd megis Lerpwl. Roedd hi wedi ymchwilio'n fanwl i sawl ffynhonnell, gan roi sylw i lyfrau log ysgolion. Soniwyd am y problemau ymarferol a gododd a'r anhawster a gai plant uniaith Gymraeg wrth geisio cyfathrebu â nhw. Am gyfnod bu'n rhaid i'r plant lleol fynychu'r ysgol yn y bore'n unig a'r ifaciwis yn y prynhawn, gan gynnal dosbarthiadau mewn adeiladau megis capeli. Ar y cyfan roedd croeso mawr iddynt a buan gwelwyd eu dylanwad ar fywyd y pentre a hwythau'n elwa o ddiwylliant yr ardal. Pan ddaeth y cyfnod i ben clywyd pa mor anodd oedd ffarwelio â'r ymwelwyr. Ar ddiwedd y sgwrs, braf oedd clywed profiadau dau o aelodau Seilo fu'n ifaciwis, sef Lucille Hughes a Hywel Roberts.

Diolchodd Lis i'r wraig wadd am sgwrs ddfyr ac addysgiadol. Y cyfarfod nesaf ymunwn â'r Gymdeithas Lenyddol ar gyfer Swper y Cynhaeaf, nos Lun Hydref 7fed

Rhaghysbysiad

Cynhelir Ffair Nadolig Seilo ddydd
Iau, 14 Tachwedd.

Gair o ddiolch

Diolch yn fawr a dymuniadau gorau yn eich cartref newydd i Veronica a Kevin Jones, Penmorfa, Parc yr Hendre gynt, sy bellach wedi symud i Fennech. Bu Veronica'n dosbarthu'r Bont am flynyddoedd lawer. Diolch hefyd i Mrs Mair Davis, 4 Tyddyn Llwydyn am fod mor barod i gario'r gwaith ymlaen.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law
erbyn Hydref 20fed

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865